

Derwen



Tîm Integredig Plant Anabl



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Beth yw Derwen?

Tîm Integredig Plant Anabl sy'n gweithio hefo plant a phobl ifanc 0 - 18 oed yng Ngwynedd. Mae'r Tîm yn darparu gwybodaeth, asesiad, ymyrraeth a chefnogaeth i blant a phobl ifanc gydag anghenion parhaus o ganlyniad i anabledau neu waeledd. Mae'r Tîm yn anelu i gefnogi teuluoedd, gofalwyr a'r gymuned ehangach i hybu iechyd a lles plant a phobl ifanc anabl yng Ngwynedd.

Beth mae Derwen yn ei gynnig?

- Un man cyswllt i gysylltu â'r Tîm
- Cyngor a gwybodaeth
- Asesiad yn ddibynnol ar angen
- Cynllun gofal a chymorth
- Monitro ac adolygu rheolaidd
- Hawl i ofalwr gael asesiad o'i anghenion ar wahân



Pwy sy'n gallu cyfeirio plentyn / person ifanc at Derwen?

- Y plentyn / person ifanc ei hun
- Rhiant / Gofalwr
- Person proffesiynol gyda chaniatâd y teulu

Beth fydd yn digwydd ar ôl i fy mhlentyn / person ifanc gael ei gyfeirio at Derwen?

- 1) Byddwn yn anfon llythyr atoch, ac at y sawl sydd wedi cyfeirio'r plentyn / person ifanc i gadarnhau ei fod wedi ei dderbyn.
- 2) Bydd cynrychiolaeth o bob proffesiwn o fewn Derwen yn cwrdd yn wythnosol i drafod yr holl gyfeiriadau ac i sicrhau eu bod yn addas i Derwen asesu'r angen.
- 3) Bydd gweithiwr o Derwen (y Swyddog Gofal Cwsmer a Dyletswydd fel arfer) yn cysylltu â chi er mwyn trefnu amser i'ch cyfarfod i gael egluro mwy am Derwen, ac i gychwyn ar y drefn asesu.
- 4) Ar ôl cwblhau'r asesiad, os ydy hi'n addas i Derwen gynnig gwasanaeth i'ch plentyn / person ifanc, trefnir Cyfarfod Cynllunio Cyntaf er mwyn cytuno gyda chi ar Gynllun Gofal a Chefnogi.



CRITERIA MYNEDIAD I WASANAETH DERWEN



Mae Derwen yn cynnig gwasanaeth i blant / bobl ifanc	Nid yw Derwen yn cynnig gwasanaeth i blant / bobl ifanc
<p>.... gydag anabledd neu oediad datblygiadol sylweddol ble nad yw gwasanaethau prif lif yn gallu cwrdd â'u hangenhion arbenigol.</p> <p>Diffinnir anabledd fel amhariad corfforol neu feddyliol sy'n effeithio yn anffafriol ac yn sylweddol dros dymor hir ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.</p>	<p>.... gydag anabledd neu oediad datblygiadol sylweddol ble mae gwasanaethau prif lif yn cwrdd â'u hanghenion.</p> <p>Diffinnir anabledd fel amhariad corfforol neu feddylion sy'n effeithio yn anffafriol ac yn sylweddol dros dymor hir ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.</p>
<p>.... gyda dau neu fwy oediad datblygiadol sylweddol neu oediad datblygiadol difrifol er mwyn asesu ymhellach (e.e. oedi mewn cyfathrebu, sgiliau gwybyddol, cyfathrebu cymdeithasol, synhwyrdd a sgiliau hunangymorth. Angen i un oediad datblygiadol fod yn wybyddol.</p>	<p>.... gydag oediad neu ddatblygiad cyffredinol ysgafn mewn un maes datblygiadol.</p> <p>...../.....</p>

parhad

**Mae Derwen yn
cynnig gwasanaeth i
blant / bobl ifanc**

**Nid yw Derwen yn
cynnig gwasanaeth i
blant / bobl ifanc**

.... gyda phroblemau
ymddygiad yn ogystal ag
oedi datblygiadol sylweddol
neu anabledd dysgu.

.... gyda phroblemau
ymddygiad ble nad oes unrhyw
oedi datblygiadol sylweddol
neu anabledd dysgu.

.... gyda salwch dirywiol/
terfynol a/neu anghenion
iechyd anrhagweladwy sydd
ag effaith ddifrifol a allai
beryglu bywyd.

.... sydd â salwch cronig ond y
gellir cwrdd â'u hanghenion yn
effeithiol gan wasanaethau
iechyd penodol arbenigol eraill.

.... gyda nam corfforol a
synhwyraidd sylweddol sy'n
effeithio ar allu'r
plentyn/person ifanc i
gyrraedd ei lawn botensial.

.... sydd â nam corfforol y gellir
ymdrin ag ef yn llwyddiannus
gan wasanaethau / adnoddau
cyffredinol eraill.



Pwy sy'n gweithio i Derwen?

Mae Derwen yn bartneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd Cyngor Gwynedd. Mae'r tîm yn cynnwys:

- **SWYDDOG GOFAL CWSMER A DYLETSWYDD**

Rôl y Swyddog yw rhoi gofal cwsmer da i deuluoedd a gofalwyr plant / bobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at Derwen drwy:

- Ymateb i holl gyfeiriadau newydd i'r gwasanaeth
- Gwblhau asesiad o angen y plentyn / person ifanc a'i ofalwyr
- Ddarparu gwybodaeth gefndirol i deuluoedd am wasanaeth Derwen a gwasanaethau eraill
- Gefnogi teuluoedd a gofalwyr yn y Cyfarfod Cynllunio Cyntaf
- Bod yn bwynt cyswllt os yw'r teuluoedd angen cymorth



- **NYRSYS CYMUNED**

Rôl y Nyrs ydy galluogi'r rhiant/gofalwr i gyrraedd potensial y plentyn / person ifanc. Fe fydd y Nyrs yn rhoi cyngor, gwybodaeth a'r sgiliau i'r rhiant er mwyn eu helpu i wneud hyn. Disgwylir i'r rhiant/gofalwr ddilyn y cyngor sydd wedi ei gytuno rhyngddyn nhw â'r nyrs, ac i adrodd yn ôl ar ddatblygiad y plentyn / person ifanc ym mhob apwyntiad.

• SEICOLEGWYR CLINIGOL

Rôl y Seicolegydd Clinigol ydy asesu'r plentyn / person ifanc a datblygu dealltwriaeth o anawsterau datblygiadol, teimladau ac ymddygiad y plentyn / person ifanc. Mae hyn yn cyfrannu tuag at gynllunio'r hyn fydd o help ar gyfer datblygiad a lles y plentyn / person ifanc. Gall seicolegwyr weithio gyda phlentyn / person ifanc, teulu neu eraill i gyflwyno newidiadau i hybu datblygiad a lles y plentyn / person ifanc.

• GWEITHWYR CYMDEITHASOL

Rôl y Gweithwyr Cymdeithasol yw:

- Gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr gyda'r nod o asesu'r heriau unigryw sy'n eu hwynebu a deall beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol yn asesu eich anghenion yn unol â *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*
- Cysylltu gyda gwasanaethau eraill – gan gynnwys Iechyd, Addysg a Gwasanaethau Cefnogol - i greu Pecyn Gofal a Chymorth fydd yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y pecyn yn parhau i ateb anghenion y plentyn / person ifanc



..... /

- bod ar gael mewn rhai amgylchiadau i roi cymorth mewn cyfarfodydd proffesiynol.
- asesu anghenion y gofalwr, naill ai fel rhan o asesiad y person ifanc, neu fel asesiad ar wahân sy'n canolbwyntio ar anghenion y gofalwr.

Mae gan y Gweithiwr Cymdeithasol rôl diogelu plant hefyd, a pan fo angen yn dilyn honiad o gam-drin bydd angen asesu o dan *Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*. Drwy gydol y broses Amddiffyn Plant bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn parhau i weithio gyda'r teulu i'w cynnal nhw a'r person ifanc.

• **THERAPYDD GALWEDIGAETHOL**

Rôl y Therapydd Galwedigaethol yw:

- Darparu asesiad arbenigol o anghenion y plentyn / person ifanc anabl. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddefnyddio i roi gwybod i rieni/gofalwyr sut i helpu'r plentyn / person ifanc, er mwyn lleihau risg a sicrhau diogelwch y plentyn / person ifanc a'r gofalwr.
- Darparu cyngor ar offer byw bob dydd ac addasiadau – sy'n amrywio o addasiadau mawr fel estyniad i gartref person ifanc, neu rheiliau i helpu gydag annibyniaeth a diogelwch



• **GWASANAETHAU CEFNOGOL**

Mae'r Gwasanaethau Cefnogol yn:

- Gweithio gyda'r plentyn neu berson ifanc a'r teulu i gyrraedd canlyniadau positif.
- Cyd-weithio hefo gweithwyr proffesiynol o fewn Derwen ar gynlluniau penodol a dwys er budd y teulu.
- Datblygu sgiliau plant a phobl ifanc.
- Galluogi plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned gyda'i gyfoedion.
- Cynnig seibiant i ofalwyr.
- Gofalu am blentyn neu berson ifanc yn ei gartref ei hun.
- Darparu gofal dros nos yn y cartref, pan yn ymarferol bosib.
- Darparu gweithgareddau yn ystod gwyliau ysgol.
- Cynorthwyo gyda gofal personol.

Swyddogion Cefnogi Teulu

Rôl y Swyddogion Cefnogi Teulu o fewn y Gwasanaethau Cefnogol yw cynnig ymyrraeth tymor byr dwys drwy :

- Ymateb i amcanion pendant o fewn Cynllun Gofal a Chefnogaeth yr unigolyn.



Mae aelodau Tîm Derwen hefyd yn cyd-weithio'n agos gyda Meddygon Plant Cymunedol, Cynrychiolwyr Addysg, Therapyddion, y Gwasanaeth Niwroddatblygiadol, Ymwelwyr Iechyd a phroffesiynau perthnasol eraill.



GOFALWYR

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi yr un hawl i ofalwyr gael asesiad o'u hanghenion fel gofalwyr, â'r plentyn neu'r person ifanc anabl y maent yn gofalu amdano.

Gan amlaf mae gofalwyr plant/pobl ifanc anabl yn gwerthfawrogi cael asesiad cyflawn sy'n cynnwys anghenion y plentyn / person ifanc ac anghenion y gofalwyr yr un pryd. Er hynny, mae'n bosib gofyn am gael asesiadau ar wahân i'r plentyn / person ifanc ar gyfer y gofalwyr.

Dylid trafod hyn gyda'r aelod o'r Tîm fydd yn asesu'r angen.

GRANTIAU

Daw cyfleoedd o bryd i'w gilydd i DERWEN wneud cais am grantiau arbennig sy'n ein galluogi i ddatblygu ein gwasanaethau.

Byddwn yn manteisio ar y cyfleoedd hyn, a gall arwain at ein galluogi ni i gynnig gwasanaethau newydd – neu ragor o wasanaeth.

Er hynny, gan mai grantiau tymor byr sy'n cael eu cynnig fel arfer, mae'n golygu nad yw'n bosib parhau gyda rhai gwasanaethau ar ddiwedd cyfnod y grant penodol hwnnw.

EICH GWYBODAETH BERSONNOL

Byddwn ond yn defnyddio'r wybodaeth am eich plentyn / person ifanc er mwyn cynnig gwasanaeth i chi.

Mi fyddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda gweithwyr proffesiynol perthnasol a sefydliadau eraill nail ai oherwydd bod gennym hawl i wneud hynny o dan y gyfraith neu gyda eich caniatad.

Bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol bob amser ac yn cael ei rhannu'n ddiogel.

Am fwy o wybodaeth ewch i'r Datganiad Preifatrwydd ar ein tududalen gwe ar wefan Cyngor Gwynedd.

SUT I GYSYLLTU HEFO DERWEN

ARFON

Bron Hendre
Lôn Parc
Caernarfon
LL55 2HP



03000 840967

DWYFOR

Swyddfa Ardal
Dwyfor
Ffordd y Cob
Pwllheli
LL53 5AA



01758 704425

MEIRIONNYDD

Swyddfeydd Ardal
Meirionnydd
Cae Penarlâg
Dolgellau,
LL40 2YB



01341 424503

Neu e-bost: Derwen@gwynedd.llyw.cymru



[Facebook.com/Derwen](https://www.facebook.com/Derwen)

www.gwynedd.llyw.cymru

SUT I WNEUD SYLW/CWYN NEU GANMOL

Er mwyn sicrhau fod ein gwasanaeth o'r ansawdd gorau, mae eich sylwadau a'ch awgrymiadau am ein gwasanaeth yn bwysig iawn i ni.

Mae croeso i chi ddweud wrthym ni os nad ydych yn hapus gydag unrhyw beth. Os na fydd hi'n bosib datrys problem yn syth, yna gallwch anfon eich sylw neu gwyn yn ysgrifenedig at un o'r cyfeiriadau uchod.

Rydym eisiau gwybod pan fod pethau wedi mynd yn dda hefyd, neu os oes gennych chi unrhyw syniadau ynglŷn â sut y gallwn ni wneud pethau'n wahanol neu'n well.